# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg o DACHWEDD 2023** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. Margaret Thomas-Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Cyng. Christine Roberts | Cyng. J. Huw Owen |
| Cyng. John Lee | Cyng. J. Egryn Lewis |
| Cyng. Victor Hughes | Cyng. Henry D. Jones |
| Cyng. Non W. Parry | Cyng. R. Alwyn Parry |
| Cyng. Arwel Môn Hughes | Cyng. Richard Parry |

**HEFYD YN BRESENNOL :**

| | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir :** | Dylan W. Rees<br>Nicola Roberts | Cyng. Geraint Bebb |
| **Asiant** | **:** Mr. Gwyn Hughes | |
| **Clerc** | **:** H. Rhys Parry | **Cymhorthydd :** Ms. Linda Powell |

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

**Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod**

**23/183 Ymddiheuriadau :** Cyng. Terry Jones, Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Ieuan G. Davies, Cyng. Eleri Lloyd Burns, Cynghorydd Sir Non Dafydd .

**23/184 Datganiad o Ddiddordeb :** Cyng. Dylan W. Rees – Parc Sglefrio : Cadeirydd y Prosiect Eitem 23/194.3 – Cofrestru Diddordeb Personol.

**23/185 Heddlu Gogledd Cymru :** Dim Cynrychiolwyr oherwydd pwysa gwaith.

**23/186 Cyflwyniad : Mr. Gwyn Hughes – Asiant : Diweddariad ar Ddatblygu'r Fynwent Newydd**
Diweddariad gan yr Asiant, Mr. Gwyn Hughes, yn dilyn cyflwyno'r Cais Cynllunio ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i fynwent ar safle Tir Penlan. Bu ymgynghoriadau gyda'r Awdurdodau priodol gyda sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru fod pryderon ganddynt gyda'r cais fel a'u cyflwynwyd. I oresgyn hyn mae angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â halogiad tir, ac Asesiad Risg Dwr Daear, ac i wneud mwy o brofion dwr i gael eu monitor dros gyfnod y gaeaf. Os na ddarperir y wybodaeth yma bydd CNC yn gwrthwynebu'r Cais Cynllunio.
I symud ymlaen ar hyn, mae Cwmni CDS wedi cynghori'r Cyngor Tref, i osod tyllau turio, dros gyfnod y Gaeaf, mewn tri safle (dau dwll turio uwchben safle'r Fynwent ac un yn is i lawr ar y safle). Er mwyn cadw'r costau i lawr, mae Cwmni CDS yn gallu paratoi cynllun trwy ddarparu mesurydd dip i'r Cyngor Tref eu defnyddio, a gellir dangos i'r Prif Dirmon sut i lanhau'r tyllau turio, monitro'r samplau dwr, a chofnodi'r canlyniadau. Yn ystod misoedd Ebrill/Mai 2024, buasai Cwmni CDS yn cyflwyno Adroddiad o ganlyniadau'r samplau dwr gwaelodlin i CNC. Cyfanswm y gost ydyw £3,942.50 & TAW. Clerc yn cadarnhau fod yr amcan bris a dogfennau ategol ar gael i'w arolygu yn y Swyddfa. **Derbyn**

***PARHAD 23/186***

Yn dilyn trafodaeth, gyda mewnbwn gan rhai o'r Aelodau **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i symud ymlaen yn unol â'r uchod a gofyn i'r Asiant weithredu ar hyn. Oherwydd sylwadau CNC, yr Asiant yn cynghori dylid tynnu'r Cais Cynllunio yn ôl hyd nes bydd canlyniadau'r profion tyllau turio wedi eu cwblhau. **PENDERFYNWYD YMHELLACH** i dderbyn Cyngor yr Asiant a rhoi gwybod i Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn.

*Cadeirydd yn diolch i'r Asiant am ei Gyflwyniad*

**23/187 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 13.11.2023**

Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**23/188 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 13.11.2023**

**1** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Cyng. J. Egryn yn dwyn sylw at Eitem 23/160 o'r Cofnodion : Cylchfan A5114 : Cyflwr y Cylchfan yn parhau i fod yn "gywilyddus" a beth ydyw'r rheswm am hyn ? Y Clerc adrodd fod e-byst wedi eu hanfon at y Cyngor Sir yn y gorffennol yn tynnu hyn i'w sylw. Cyng. Nicola Roberts am edrych i ddilyn hyn i fynnu ac yn datgan fod cynlluniau bioamrywiaeth mewn lle yn rhai mannau i greu ardaloedd tyfu blodau gwyllt heb lawer o waith cynnal a chadw. Clerc yn adrodd ymhellach fod angen Trwydded arbennig gan y Cyngor Sir i wneud gwaith ar y Cylchfan.

**23/189 Cynllunio**

**I Dderbyn Cofnodion Is-bwyllgor Cynllunio 09.11.2023 :**

**PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

Cadeirydd yn gofyn i Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio aros ar ôl y Cyfarfod Llawn i drafod dau Gais/Ymgynghoriad Cynllunio wedi eu derbyn yn ddiweddar. **Derbyn**

**23/190 I Dderbyn Argymhellion Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 11.10.2023 :**

Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw at Eitem 23/172 o'r Cofnodion uchod : Archwiliad Mewnol 2022-2023. Clerc yn cadarnhau i Cyng. Lewis fod yr Archwilydd Mewnol yn y broses o baratoi'r cyfrifon i'w hanfon ymlaen at Awdit Cymru. Dim trafodaeth bellach.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn Cofnodion 11.10.2023 fel rhai cywir.

**23/191 I Dderbyn Argymhellion Is-bwyllgor Staffio a Safonau 16.10.2023 :**

Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw at Eitemau o'r Cofnodion, fel a ganlyn :

Eitem 23/180.1 Gwyliau Blynyddol Staff : Cytuno gyda'r drefn o gario drosodd 5 diwrnod o wyliau blynyddol ond ddim yn cytuno i dalu tal gwyliau am ddiwrnodau sydd ddim yn gallu cael eu cymryd fel gwyliau blynyddol. Dim trafodaeth bellach.

Eitem 23/180.2 Trefniadau ar Gyfer y Nadolig : Bydd y Swyddfa ar gau rhwng 22ain o Ragfyr 2023 a 8fed o Ionawr 2024. Clerc yn esbonio i Cyng. Lewis na fydd y Swyddfa ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod yma, ond bydd Aelodau'r Staff ar gael i dderbyn galwadau ffôn o adra, y Tirmon ar gael os bydd rhywbeth angen ei wneud ynglŷn â'r Fynwent a'r Clerc yn galw i'r Swyddfa i wneud y taliadau misol diwedd Mis Rhagfyr. **Derbyn**

**23/192 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer**

**1** **Digartref – Cyfarfod Blynyddol 10.10.2023 :** Ymddiheuro oherwydd amgylchiadau personol

**2** **Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Cymhorthfeydd 25.10.2023 :** Cyng. Non Parry yn adrodd ei bod wedi trafod gyda Chynrychiolydd yr Heddlu, pryderon yn ymwneud ac

***PARHAD 23/192***

ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal y Dingle. Heddlu am edrych ar hyn ac ymateb gydag adborth.

Cadeirydd wedi dwyn sylw'r Heddlu at gwynion fod galwadau ffôn 101 ddim yn cael eu hateb er gwaethaf trigolion yn cael eu hannog i adrodd unrhyw ddigwyddiad trwy'r system yma.

Clerc yn adrodd bydd yr Heddlu yn anfon Uned i'r Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen, lle bydd cyfle i'r Heddlu ddosbarthu taflenni, hyrwyddo gwaith yr Heddlu a bydd Tîm Troseddu Gwledig a Thîm Seibr ar gael i siarad gyda'r cyhoedd. **Derbyn**

3 **Gwahoddiad i Ymweld ag Ystâd Erwau'r Coleg - 21.11.2023 :** Dirprwyaeth o'r Cyngor Tref i fynychu.

**23/193 Materion yn Codi gan Aelodau : Dim**

**23/194 Adroddiad y Clerc :**
**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:**

1 **Fynwent Lon Newydd - To'r Capel :** Yn ystod Cyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 18.09.2023, Aelodau wedi cael cyfle i weld fod to'r Capel yn dirywio a bod plaster yn syrthio o'r to ar lawr y Capel. Cytunwyd i gysylltu gydag Arbenigwyr i edrych ar y gwaith atgyweirio a gofyn am amcan bris. Clerc yn adrodd fod amcan bris wedi ei dderbyn gan Adeiladwr , er gwaethaf anfon at Gontractwyr eraill. Clerc yn darllen yr amcan bris o £1,960.00 i drwsio to tu allan i'r Capel ac amcan bris o £7,880.00 i wneud y gwaith atgyweirio tu mewn i'r Capel. Clerc yn adrodd ymhellach fod cais grant wedi ei gyflwyno ac yn cynnwys y gwaith uchod ynghyd a gwaith tu mewn i'r Capel - dim wedi derbyn unrhyw ymateb ar hyn o bryd. Cyng. J. Egryn Lewis yn pryderu fod dim ond un amcan bris wedi ei dderbyn a dylid cael mwy fel cymhariaeth. Cyng. Victor Hughes hefyd yn datgan ei anfodlonrwydd a bod angen hysbysebu unrhyw waith fel hyn yn swyddogol trwy gyfryngau priodol a derbyn manyleb broffesiynol. Yn dilyn trafodaeth, a chyn symud ymlaen gyda'r gwaith uchod, **PENDERFYNWYD** hysbysebu am fwy o brisiau a thrafod y mater ymhellach yn cyfarfod nesaf o Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae. **Derbyn**

2 **Y Fynwent Newydd - Tir Penlan :** Porthwr y Cytundeb Pori'r llynedd wedi gofyn am ddod yn ôl eto eleni dros dymor y Gaeaf (30.11.2023 - 31.03.2024) ar yr un telerau ac yn ymwybodol bydd gwaith tyllau turio yn mynd ymlaen ar y safle. Rhai Aelodau yn anfodlon gyda'r drefn yma ac yn awgrymu derbyn Tendrau ar gyfer y Cytundeb Pori. Cyng. Victor Hughes yn awyddus i fynd at Asiant Tir a derbyn barn Arbenigwr proffesiynol cyn gosod y tir o hyn ymlaen. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** parhau gyda'r trefniadau fel y cyflwynwyd gan y Clerc am y flwyddyn yma a thrafod y mater ymhellach yn Cyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae yn Ionawr 2024.

3 **Parc Sglefrio :** Ffurflen Trosglwyddo'r Loteri wedi ei chwblhau ac wedi ei hanfon yn ôl ynghyd a dogfennau priodol arall. Disgwyl ymateb ac felly ar hyn o bryd nid ydyw'r Parc Sglefrio wedi ei drosglwyddo'n swyddogol i'r Cyngor Tref. Clerc yn cadarnhau fod y Parc Sglefrio wedi ei gynnwys o dan Yswiriant y Cyngor Tref. Tirmon yn gwagio'r biniau ysbwriel yn rheolaidd.

4 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen - 01.12.2023 :** Trydanwr wedi gosod a phrofi'r goleuadau Nadolig newydd dros gyfnod o dair noson. Y Cyngor Tref wedi cyd-weithio gyda Menter Môn, Menter Iaith a Stiwdio Môn FM i baratoi Posteri, adloniant, Grotto Sion Corn, a.y.b. ar gyfer y Noson. Clerc yn cadarnhau fod yr Achlysur yn mynd ymlaen rhwng 4.00y.h. a 9.00y.h. a Maer y Dref fydd yn troi'r goleuadau ymlaen am 6.30y.h.

5 **Camerâu CCTV :** Gweithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd ar gais i gael 16 o gamera CCTV ychwanegol yn y dref. Mewnbwn gan Swyddogion yr Heddlu ar leoliad y Camerâu. Cyng. R. Alwyn Parry yn adrodd ar welliannau i'r dref yn ardaloedd Iceland a Maes Hyfryd a buasai mwy o gamerâu o fudd mawr i'r dref. **Derbyn**

*7.40y.h. Cyng. John Lee yn gadael y Cyfarfod*

**23/195 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :**

1 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned-Cyfarfodydd/Rhaglen Waith y Fforwm Cyswllt 05.11.2023 –** Gwybodaeth wedi ei anfon trwy e-bost at yr Aelodau - er gwybodaeth;
2 **Un Llais Cymru "Digital Health Project" Hydref 2023 –** Dogfen wedi ei anfon trwy e-bost at yr Aelodau - er gwybodaeth;
3 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned : Cofnodion 12.09.2023 –** Er gwybodaeth;
4 **Cyfarfod Grŵp Gweithgor Nadolig 08.11.2023 :** Cadeirydd yn diolch yn fawr i Menter Môn a Menter Iaith am eu holl gefnogaeth tuag at Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen eleni.

**23/196 Cyllid : I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Hydref 2023 :**
Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa i archwilio'r anfonebau mis Hydref 2023.
Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn Mantolen Ariannol Mis Hydref 2023. **PENDERFYNWYD** derbyn y Fantolen Ariannol uchod.
Cyng. Nicola Roberts yn holi beth ydyw'r drefn i'r Cynghorwyr Sir dderbyn Pecyn Rhaglen y Cyfarfodydd Llawn. Clerc am wneud ymholiadau pellach. **Derbyn**

**23/197 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :

- Etholiadau Seneddol : Arolygiad ar agor 13.11.2023 (Arolwg Llefydd Pleidleisio Ynys Môn);
- Ffordd Glandŵr - Gwaith paratoi mewn lle ar gyfer croesfan cerddwyr;
- Tenantiaid Tai Cyngor yn cael cyfle i Ddweud eu Dweud;
- Pwyllgor Scrutiny : Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - Dod ymlaen gyda chynllun i geisio gwella'r sefyllfa;
- Cwtogi'r Gyllideb ar gyfer 2024-2025 – Ymgynghori yn y Flwyddyn Newydd;
- Ail gyflwyno Cais Cynllunio FPL/2023/181 - Neuadd y Sir, (Codi 7 uned breswyl);
- Ysgol Corn Hir : Ystyried ymestyn y cyfyngiad cyflymder 20myh tuag at Bodffordd, Ystyried codi uchder y Cylchfan a gwneud y lon yn llai; Cyng. Christine Roberts yn adrodd buasai llwybr troed ar draws y glaswellt yn arwain tuag at y groesfan cerddwyr o fudd .

***Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorydd Sir am eu mewnbwn***

**23/198 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **Cyngor Sir Ynys Môn : 16.10.2023 - Gorchymyn (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro(Lon Cae Cwta)Llangefni 2023 -** Gohebiaeth wedi ei anfon i'r Aelodau er gwybodaeth;
2 **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol : 27.10.2023 –** Er Gwybodaeth;
3 **Cyngor Sir Ynys Môn : Newyddlen y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Thref a Chymuned :** Cyng. J. Egryn Lewis yn holi os oes Cynllun Hyfforddiant mewn lle, Clerc yn cadarnhau fod cynllun wedi ei baratoi ac yn barod i 'w anfon ymlaen i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. Cadeirydd yn datgan fod yn orfodol i'r Aelodau fynychu Cyrsiau Hyfforddi. **Derbyn**
4 **Cyfraniadau 2022-2023 :** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Tenovus Gofal Cancer.

**23/199 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Hydref 2023 :**
1 **Un Llais Cymru : Derbyn**
2 **Materion Eraill : Derbyn**

**23/200 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan Y Maer :**

1 **Gwasanaeth Sul y Cofio :** Cadeirydd yn diolch i'r Aelodau a wnaeth fynychu'r Gwasanaeth am eu presenoldeb o flaen o Gofeb.

**23/201 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :**

1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 11eg o Ragfyr 2023.

***CYNGHORYDD MARGARET THOMAS***

***CADEIRYDD***